


# Pecyn Adnoddau Addysgu ar gyfer Cyfnod Allweddol 2

hollywood bowl
www.hollywoodbowl.co.uk

Adnodd penigamp di-dâl yn rhychwantu'r cwricwlwm cyfan, oddi wrth raglen addysg hollywood bowl.

Dewch i ddysgu am farchnata a delweddau corfforaethol, ystyriwch yr effeithiau y mae gweithgarwch corfforol fel bowlio yn eu cael ar y corff. Edrychwch ar y gwahanol swyddi sydd ar gael ac ymunwch â'r mabolgiamocs i gael gweld sut y cawn hwyl gyda mathemateg yma yn hollywood bowl!

Pecyn adnoddau i athrawon Cyfnod Allweddol 2. Yn cynnwys dolenni'n cysylltu â Chwricwlwm Cenedlaethol Cymru yn *Saesneg, Celf a Dylunio, Dylunio a Thechnoleg, TGCh, *Cymraeg, Addysg Gorfforol, Gwyddoniaeth, Mathemateg a'r fframwaith ABCh.

Gellir archebu copïau pellach o'r pecyn hwn yn www.hollywoodbowl.co.uk



© Bentley Independent Education Advisors, 2009.
www.bentley-iea.co.uk

# Cynnwys


1. Hysbysebu a Delwedd Gorfforaethol
2. Cyhyrau a Chyflymder y Galon
3. Grymoedd
4. Cyflogaeth
5. Deall Onglau
6. Dadansoddi Data
7. Gwibdaith yr Ysgol i hollywood bowl – Rhifedd
8. Gwibdaith yr Ysgol i hollywood bowl parhad – Swyddi a chwrdd â phobl

Poster – Hysbysebu a Delwedd Gorfforaethol
Poster – Bioleg Bowlio







**Enillydd Dysgu gyda Hollywood Bowl**
**Hanako Lowry**
**Town School, Sutton Coldfield**

Mae hollywod bowl yn ddiolchgar i'r cyrff canlynol am gyfrannu at ddatblygiad y pecyn hwn:

Wragby Primary School, Market Rasen

Abbey Court School, Rochester

64th Birmingham Cub Scout Pack

Mereside Primary School, Blackpool

Mae fersiynau o'r pecyn hwn ar gael gyda dolenni'n cysylltu â'r canlynol:

Cwricwlwm Cenedlaethol Lloegr

Canllawiau Cwricwlwm yr Alban

Cwricwlwm Rhagoriaeth yr Alban (ar gael o Awst 2009 ymlaen)

Cwricwlwm Cenedlaethol Cymru – Cyhoeddir yn Gymraeg a Saesneg

*Mae dolenni cyswllt y Cwricwlwm Cenedlaethol sydd wedi'u dangos ar gyfer y Saesneg fel pwnc yn gymwys i fersiwn Saesneg y pecyn hwn. Mae'r dolenni cyswllt sydd wedi'u dangos ar gyfer y Gymraeg yn gymwys i fersiwn Cymraeg y pecyn hwn.

## Cyflwyniad




Mae deunydd darllen da ym maes marchnata yn gryno, wedi'i eirio'n dda, yn denu'r llygad ac yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol sydd eisiau ar y darllenydd, ond heb fanylu ormod!

Eglurwch wrth y disgyblion y gall marchnata a hysbysebu fod ar lawer ffurf, o bosteri a thaflenni gwib i ddarllediadau teledu a radio. Allan nhw ddweud wrthych pam y byddai cwmnïau am hysbysebu?

Y prif resymau yw tynnu'ch sylw at eu bodolaeth, rhoi gwybod ichi am eu cynhyrchion a'ch arwain at eu lleoliad neu rywle sy'n cynnig rhagor o fanylion (er enghraifft, rhif ffôn, cyfeiriad e-bost neu gyfeiriad gwe). O hyn, bachwn ar dri chysyniad allweddol: Tynnu Sylw, Rhoi Gwybod ac Arwain, y gallwch eu defnyddio'n nes ymlaen yn y gweithgarwch dylunio.

## Trafodaeth



Gofynnwch i'ch disgyblion a allan nhw feddwl am unrhyw hysbyseb a welsant neu a glywsant yn ddiweddar, dros bwy ydoedd, ble y gwelsant neu y clywsant hi, beth a ddywedai a pham eu bod yn ei chofio? Bydd y gweithgarwch hwn o gymorth iddynt ddeall beth sy'n gwneud hysbyseb gofiadwy sydd felly'n un dda. Gallech ofyn i'r disgyblion ddod i'r ysgol â defnyddiau hysbysebu a welsant (e.e. taflenni gwib, mewnosodiadau cylchgrawn, hysbysebion papur newydd ac ati), wedyn gallech gymharu maint y ffont, y llunwedd, lluniau ac ati. Gofynnwch i'r disgyblion sut mae pob hysbyseb yn cyfleu'r neges allweddol (gallai hyn fod yn sêl, yn gynnig agoriadol ac ati).

Bwriwch gip ar y poster 'Hysbysebu, Marchnata a Delwedd Gorfforaethol' a gofynnwch i'r disgyblion beth sydd amlycaf lle mae'r syniadau ar gyfer lifrai yn y cwestiwn, sut maen nhw'n gwybod ble mae Holly a Woody'n gweithio. Ydy logo o fudd wrth hysbysebu? Eglurwch fod cwmni wrth ddefnyddio'r un lliwiau, logos a/neu arddull ffont ar eu holl ddeunydd marchnata a hysbysebu ac ar eu lifrai ac ati, yn hybu delwedd gorfforaethol y mae'n hawdd i ni fel cwsmeriaid ei hadnabod. Fe wyddom i bwy mae'n perthyn, beth a wnânt a beth y gallwn ei ddisgwyl ganddynt.

## Gweithgarwch 1 - Syniadau Dylunio Delwedd Gorfforaethol




© Bentley Independent Education Advisors 2008

Gofynnwch i'ch disgyblion ddylunio elfennau o ddelwedd gorfforaethol newydd i Hollywood Bowl, logo newydd, lliwiau thema newydd, lifrai newydd, efallai llinell glo (mae Hollywood Bowl wedi defnyddio llinellau clo yn y gorffennol: 'The Difference is Striking' a 'Guaranteed Good Times'). Mae angen iddynt gofnodi'u syniadau ar y ddalen waith a hefyd ysgrifennu darn byr yn egluro sut y daethant i'r dyluniad terfynol a pham y bu iddynt ddewis y lliwiau hynny, dyluniad y logo ac ati. (Gallai fod o fudd i helaethu dalennau gwaith y disgyblion i faint A3 ar gyfer y gweithgarwch hwn.) Gallech ddefnyddio pecyn graffeg neu becyn Cyhoeddi Bwrdd-gwaith a chysylltu hyn â Thechnoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu.

## Gweithgarwch 2 – Syniadau Dylunwaith Hysbysebu


Gofynnwch i'ch disgyblion, drwy ddefnyddio'u dyluniadau newydd ar gyfer Hollywood Bowl, greu hysbyseb i Hollywood Bowl. Gallai'r disgyblion gynhyrchu taflenni, posteri, dalennau gwib neu ysgrifennu sgript hysbyseb radio neu deledu (gallent hyd yn oed recordio'r hysbyseb os yw'r cyfleusterau gennych). Dylent gynnwys eu syniadau o Weithgarwch 1 yn yr hysbysebion. Bydd angen hefyd i'r disgyblion feddwl am y cysyniadau allweddol a gyflwynwyd yn gynharach. Tynnu Sylw: mae angen iddynt wneud yn siŵr fod yr hysbyseb yn dweud wrth y darllenwyr/gwrandawyr am Hollywood Bowl. Rhoi Gwybod: mae angen iddynt wneud yn siŵr eu bod yn dysgu'r darllenydd am Hollywood Bowl a beth y gellir ei wneud yno, ac i gloi mae angen iddynt Arwain y darllenwyr/gwrandawyr i leoliad Hollywood Bowl neu rywle lle gallant gael rhagor o wybodaeth.

**Dolenni Cyswllt Cwricwlwm Cenedlaethol Cymru – Cyfnod Allweddol 2**

*__Saesneg__ *Sgiliau:* Llafaredd 1, 3, 5. Darllen 3, 4, 5, 8. Ysgrifennu 1, 4, 7, 8, 9. *Ystod*: Llafaredd 2, 3, 4, 5, 8. Darllen 3. Ysgrifennu 1, 2, 3, 4.
***Celf a Dylunio*** *Sgiliau:* Deall 3. Ymchwilio 3. *Ystod:* Deall, Gwneud.
***Dylunio a Thechnoleg*** *Sgiliau:* Dylunio 1, 2, 5, 7. Gwneud 6. *Ystod:* Dylunio a Gwneud Cynhyrchion, gan Ganolbwyntio ar Wahanol Gyd-destunau.
***TGCh*** *Sgiliau:* Darganfod a Dadansoddi Gwybodaeth 1, 2, 3. Creu a Throsglwyddo Gwybodaeth 1, 2. *Ystod:* Defnyddio Ffynonellau Gwybodaeth TGCh.
*__Cymraeg__ *Sgiliau:* Llafaredd 3. Darllen 3, 5, 6, 9. Ysgrifennu 4. *Ystod:* Llafaredd 2, 3, 4, 5, 6. Darllen 3. Ysgrifennu 1, 2, 3, 4.

Ar hyn o bryd mae Hollywood Bowl yn defnyddio yn eu deunydd hysbysebu:

- Logo
- Lliwiau corfforaethol
- Ffontiau



Mae'r uchod o gymorth iddynt greu eu delwedd gorfforaethol; mae'n golygu ei bod yn hawdd inni eu hadnabod.

## Allwch chi greu delwedd newydd?

Tynnwch lun o'ch syniadau isod (gallech dynnu lluniau bras ar bapurach dieisiau yn gyntaf):

**Logo newydd**

**Lliwiau newydd**

**Ffontiau newydd**

**Llinell glo newydd**

© Bentley Independent Education Advisors 2008

hollywood bowl
www.hollywoodbowl.co.uk

## Cyflwyniad

Mae ymarfer  corff yn dda iawn inni. Mae unrhyw weithgarwch sy'n hybu cyflymder y galon ac yn peri inni symud yn dda inni.

Eglurwch wrth y disgyblion y gall fod llawer ffurf i ymarfer corff, o chwaraeon egnïol i ymarfer mwy cymedrol fel cerdded.



## Trafodaeth

Gofynnwch i'ch disgyblion pa fath o ymarfer corff a wnânt. Efallai fod rhai yn cerdded neu'n seiclo i'r ysgol, hwyrach bod eraill yn cael gwersi nofio neu'n aelodau clybiau fel pêl-droed, karate neu bêl-rwyd. Pa mor aml y byddant yn ymarfer? Pa ymarfer a wnânt yn yr ysgol? Efallai'ch bod yn gwneud chwaraeon, cerddoriaeth a symud neu Addysg Gorfforol? A fu unrhyw rai o'ch disgyblion yn bowlio? A gredant fod bowlio'n fath o ymarfer corff?

## Gweithgarwch 1 – Cyflymder y Galon

*(Bydd arnoch chi angen watsh amseru i'r gweithgarwch hwn)*

Nod y rhan fwyaf o ymarfer corff yw codi cyflymder eich calon. Cyflymder y galon yw nifer y gweithiau y bydd eich calon yn curo mewn munud; fel curiadau y funud y byddwn yn ei fesur. Yn y gweithgarwch hwn rydym yn mynd i ystyried faint mae cyflymder ein calon yn codi wrth wneud ymarfer syml. Gall y disgyblion roi cynnig ar gymryd curiad calonnau ei gilydd (gall hyn fod yn lled anodd a hwyrach na fydd rhai disgyblion yn llwyddo i'w wneud). Mae angen i'r disgyblion gyfrif faint o weithiau y teimlant galon eu cyd-ddisgybl yn curo mewn munud a chofnodi cyflymder y galon wrth orffwys yn y tabl ar y ddalen waith. Mae angen iddynt ymgymryd â phob gweithgarwch sydd wedi'i restru yn y tabl ar y ddalen waith, gan gofnodi cyflymder y galon yn syth ar ôl cwblhau pob gweithgarwch. Gallai disgyblion sy'n ei chael yn anodd mesur curiad y galon gymharu cyflymder eu calon eu hun wrth orffwys â chyflymder eu calon ar ôl ymarfer. Gallant wneud hyn drwy roi eu llaw ar eu brest eu hun i gael gweld a yw'r galon yn curo'n ***gyflymach*** neu'n ***arafach*** yn ystod y gwahanol weithgareddau a chofnodi hyn ar eu dalen.




## Gweithgarwch 2 - Cyhyrau

*(Byddai o gymorth pe gallai'r disgyblion wisgo'u dillad chwaraeon ar gyfer y gweithgarwch hwn – bydd angen ichi gadw ystyriaethau diwylliannol/ffydd mewn cof wrth gynllunio hyn).*

Mae llawer gwahanol ran i'n cyrff, a mwyafrif y rheiny'n anweledig gan eu bod y tu mewn inni. Y rhannau sy'n ein helpu i ymarfer drwy ein cynnal a hybu symudiad yw'r sgerbwd a'r cyhyrau. Rydym yn mynd i edrych ar y prif gyhyrau yn ein breichiau a'n coesau sy'n ein helpu i symud.

Bwriwch gip ar boster 'Bioleg Bowlio'. A all y disgyblion deimlo unrhyw rai o'r cyhyrau hyn ar eu cyrff eu hunain?




Rhannwch y disgyblion yn grwpiau bach (3 neu 4). Un disgybl ymhob grŵp fydd y model. Rhowch i ddisgyblion eraill y grŵp bin ysgrifennu a dalen o sticeri. Yna, mae'n rhaid i'r disgyblion ysgrifennu enwau'r prif gyhyrau ar y sticeri a'u glynu lle mae'r cyhyrau ar y model. Gallai fod o gymorth pe bai'r model yn symud ychydig er mwyn cael gweld lle mae'r cyhyrau.


Pa rai o'r cyhyrau y credant y byddent yn eu defnyddio wrth fowlio? Edrychwch ar y poster a gofynnwch iddynt efelychu'r ystumiau bowlio. A allant deimlo pa gyhyrau sy'n gweithio?

**Dolenni Cyswllt Cwricwlwm Cenedlaethol Cymru – Cyfnod Allweddol 2**

***Addysg Gorfforol*** *Sgiliau:* ***1.1 ac 1.4.***
***Gwyddoniaeth*** *Sgiliau:* Ymholiad (Cynllunio) 5, 6. (Datblygu) 1, 2.
*Ystod*: Cyd-ddibyniaeth
Organebau 2.

© Bentley Independent Education Advisors 2008





**Sut i gymryd curiad y galon.**

**Tabl Gweithgarwch 1**

| Gweithgarwch | Gorffwys | Hercian am funud | Sgipio am funud | Rhedeg am funud | Gorwedd i lawr am funud |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyflymder curiad y galon | | | | | |

Pa weithgarwch a wnaeth i'ch calon guro gyflymaf? ..................................................................

P'un wnaeth i'ch calon guro arafaf?......................................................................

Oeddech chi'n anadlu'n gyflymach wrth i'ch calon guro'n gyflymach? ..............................................

© Bentley Independent Education Advisors 2008

## Cyflwyniad



Beth sy'n peri i bêl rowlio a pham ei bod yn dod i aros? Pa rymoedd sy'n gweithredu ar bêl fowlio wrth ei rowlio i lawr yr ale? Byddwn yn defnyddio gweithgareddau syml i geisio'r atebion i'r cwestiynau hyn.

## Trafodaeth

Atgoffwch eich disgyblion am ddisgyrchiant a bod gwrthrychau'n cael eu tynnu i lawr oherwydd yr atyniad disgyrchol rhyngddynt a'r ddaear. Gellir dangos hyn drwy ollwng marblen. Trafodwch beth a allai beri i wrthrychau arafu neu gwympo'n fwy araf nag eraill. Gellir dangos hyn drwy ollwng marblen a phluen. Eglurwch wrth y disgyblion y bydd y bluen yn cwympo'n arafach am ei bod yn fwy gwastad na'r farblen. Wrth iddi ddisgyn, mae'r awyr yn gwthio yn ei herbyn ac yn gorfod gwthio yn erbyn arwyneb mawr gwastad (gwaelod y bluen). Ond siâp sfferig sydd i'r farblen ac felly gall yr awyr lifo'n rhwydd o'i chwmpas wrth iddi gwympo. Pan fydd yr awyr yn arafu gwrthrych, 'gwrthiant awyr' yw'r term a ddefnyddir a grym ydyw. Grym hefyd y gelwir disgyrchiant am ei fod yn gweithredu ar wrthrych.



Arddangosiad da yw gollwng dau gerdyn chwarae, un â'r wyneb neu'r cefn cyfan tuag i lawr, a'r llall â'r ymyl tuag i lawr, i brofi y bydd mwy o wrthsafiad i eitemau sydd ag arwyneb ehangach ar y gwaelod na rhai sydd ag arwyneb llai ar y gwaelod. Eglurwch sut y gall grymoedd wneud i wrthrychau symud ond hefyd sut y gallant atal rhywbeth rhag symud.

Mae gwrth-rym i bob grym. Os yw bwrdd yn pwyso 30 kg ac yn sefyll ar y llawr, yna mae'n rhaid i'r llawr weithredu gwthiad o 30 kg tuag i fyny. Os oes pryfed pren yn y llawr ac na all weithredu gwthiad o 30 kg, yna byddai'r bwrdd yn syrthio drwy'r llawr. Ond pe bai'r llawr, drwy ryw ddigwyddiad hynod, yn rhoi gwthiad o 31 kg, yna fe gaem ein syfrdanu oll: byddai'r bwrdd yn codi i'r awyr!

## Gweithgarwch 1 – Ymaflyd Breichiau



Gofynnwch i'r disgyblion ymrannu'n barau. Mae pob pâr yn mynd i gael cystadleuaeth ymaflyd breichiau. Unwaith bod pob pâr wedi gorffen, trefnwch i'r enillwyr i gyd eistedd gyda'i gilydd (grŵp 1), i'r rhai a gollodd eistedd gyda'i gilydd (grŵp 2) ac i'r rhai a gafodd ganlyniad cyfartal eistedd gyda'i gilydd (grŵp 3). Gofynnwch i grwpiau 1 a 2 pa grŵp sydd â'r grym mwyaf. Pa grŵp sy'n cynnwys y bobl sydd â'r grym lleiaf? Eglurwch mai'r 'gwrthrych' yn yr enghraifft hon oedd llaw eu gwrthwynebydd ac mai'r enillwyr oedd â'r grym mwyaf gan eu bod yn medru 'gwthio' eu gwrthrych. Mae hyn yn dangos bod gwrth-rym i bob grym. Gofynnwch i'r disgyblion beth fyddai'n digwydd pe bai'r grymoedd yn gyfartal. Pa grŵp ddangosodd hyn? Oedd grŵp 3 yn cydnabod bod eu grymoedd yn gyfartal? Gallwch ategu'r gweithgarwch hwn drwy ornest Tynnu Rhaff. Pa ochr oedd â'r grym mwyaf?

© Bentley Independent Education Advisors 2008

## Gweithgarwch 2 – Rowlio Marblis

*(I hyn bydd arnoch chi angen lletem/stop drws, llinyn mesur a marblis)*


Rydym yn mynd i ystyried sut y gall gwahanol arwynebau arafu gwrthrych. Defnyddiwch y lletem i ollwng eich marblen (gosodwch y farblen ar y pen uchaf a gadael iddi rowlio i lawr). Mae hyn yn cadw'r grym cychwynnol a roesoch ar y farblen ar y dechrau yn gyson. Dangoswch i'r disgyblion sut i ollwng eu marblen yn gyson. Dewiswch arwynebau gwahanol i rowlio'r farblen drostynt. Gallech roi cynnig ar garped, concrid, glaswellt, llawr pren, ffabrig, beth bynnag sydd wrth law. Unwaith bod y farblen wedi aros, cofnodwch pa mor bell y bu iddi deithio drwy fesur y pellter o waelod y lletem i'r farblen. Defnyddiwch y tabl ar y ddalen waith. Cofiwch, os bydd y disgyblion yn gweithio mewn grwpiau a'ch bod yn mynd i gymharu'r canlyniadau, fod angen iddynt i gyd fod â lletemau o'r un fath yn union, gan y bydd uchder y lletem yn effeithio ar gyflymder y farblen wrth ddechrau a pha mor bell y bydd yn rowlio.

**Dolenni Cyswllt Cwricwlwm Cenedlaethol Cymru – Cyfnod Allweddol 2**

***Gwyddoniaeth*** *Sgiliau:* Ymholiad (Cynllunio) 5, 6. (Datblygu) 1, 2, 4.
*Ystod:* Sut mae Pethau'n Gweithio 2, 3.

hollywood bowl
www.hollywoodbowl.co.uk

**Sut i rowlio'ch marblen.**



**Tabl:**

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Arwyneb | *carped* | | | | | | |
| Pellter | *0.75m* | | | | | | |

Dros ba arwyneb y bu i'r farblen deithio bellaf?..........................................................

Dros ba arwyneb y teithiodd y pellter byrraf?................................................................

Pan fydd gwrthrych yn symud a bod grym yn ei arafu, y term a ddefnyddir am y grym hwn yw 'Ffrithiant'. Mae arwynebau garw yn tueddu i fod â mwy o ffrithiant na rhai llyfn. Ai dyma welsoch chi?..................................................

Pam, gredwch chi, fod Hollywood Bowl yn defnyddio arwynebau caboledig gwastad ar gyfer yr aleau?.............................................................................................................................................
..............................................................................................................................................................

© Bentley Independent Education Advisors 2008

## Cyflwyniad

Mae llawer o wahanol swyddi yn Hollywood Bowl ac mae pawb yn aelod pwysig o dîm. Bydd y tîm hwn yn helpu i wneud yn siŵr eich bod yn cael profiad diogel, glân, pleserus a llawn hwyl wrth ddod i fowlio.



## Trafodaeth

Siaradwch â'r disgyblion am y swyddi y bydd pobl o'u hadnabod yn eu gwneud. Mynnwch wybod pa swyddi a wnaiff eu rhieni/ymorolwyr/perthnasau. Gofynnwch iddynt feddwl am eu hysgol, sawl gwahanol swydd y bydd pobl yn yr ysgol yn eu gwneud, sawl un y gallant eu henwi (e.e. Pennaeth, Athro/Athrawes, Ysgrifenyddes, Cogyddes, Goruchwylydd Amser Cinio, Cynorthwyydd Cefnogaeth Ddysgu, Gofalwr ac ati)

## Gweithgarwch 1 – Edrych ar Ddisgrifiadau Swyddi

Ar y ddalen waith gwelir disgrifiad cryno o rôl 'Aelod o'r Tîm Blaen Tŷ' yn Hollywood Bowl; trafodwch hyn gyda'ch disgyblion. Yr aelod tîm hwn yw un o'r wynebau cyntaf y bydd ymwelwyr â Hollywood Bowl yn ei weld. Pwy sy'n cyfateb i'r 'blaen tŷ' yn eich ysgol? Pwy a wêl ymwelwyr gyntaf? Os gallwch gael gafael ar gopi o ddisgrifiad swydd 'blaen tŷ' eich ysgol, gofynnwch i'r disgyblion gymharu'r ddau. Pa adrannau sy'n debyg a pha rai sy'n wahanol?



## Gweithgarwch 2 – Ystyried Gweithio yn y Caffi a'r Llawlyfr

Ar holl safleoedd Hollywood Bowl mae caffi sy'n gweini lluniaeth ysgafn, prydau bwyd a diodydd poeth ac oer. Bydd hefyd yn arlwyo i bartïon. Mae gweithio mewn caffi yn rôl bwysig iawn. A all y disgyblion gofnodi beth y credant y dylai disgrifiad rôl rhywun sy'n gweithio mewn caffi ei gynnwys? Bydd angen iddynt feddwl am lanweithdra bwyd, diogelwch bwyd, defnyddio offer a gwybodaeth amdanynt, storio bwyd, coginio, glanhau, cymryd archebion ac ymddangosiad aelodau o'r tîm.

Mae llawlyfr Hollywood Bowl yn offeryn pwysig iawn i helpu aelodau o'r staff i ddysgu beth sydd angen iddynt ei wneud. Mae'n egluro'r rheolau a beth mae Hollywood Bowl yn ei ddisgwyl gan ei staff. Ar waelod y ddalen waith, gofynnir i'r disgyblion ddylunio llawlyfr wedi'i anelu at ddisgybl newydd sy'n dechrau yn eu hysgol. Pa wybodaeth y dylid ei chynnwys ynddo? Os oes gennych brosbectws ysgol, gallai rhywfaint o'r wybodaeth fod yn hwnnw, megis dillad ysgol, amserau dechrau ac amser mynd adref ac ati.




© Bentley Independent Education Advisors 2008

**Dolenni Cyswllt Cwricwlwm Cenedlaethol Cymru – Cyfnod Allweddol 2**

***Saesneg** *Sgiliau:* Darllen 3, 4, 5, 6b, 8. Ysgrifennu 1, 4, 9. *Ystod:* 3. Ysgrifennu 1, 2, 4.
***Fframwaith ABCh*** *Ystod:* Paratoi ar Gyfer Dysgu Gydol Oes.
***Cymraeg** *Sgiliau:* Llafaredd 3. Darllen 3, 9. Ysgrifennu 4, 9. *Ystod:* Llafaredd 1, 6. Darllen 3. Ysgrifennu 1, 2, 3, 4.

## Disgrifiad rôl Gweithiwr Blaen Tŷ yn Hollywood Bowl:



**Diben cyffredinol:** Datblygu cysylltiadau rhagorol â chwsmeriaid wrth weini, tra'n arddangos nodweddion y brand. Cadw at bob rheol Iechyd a Diogelwch, Glanweithdra Bwyd a pholisi'r cwmni.

**Atebol i:** Rheolwr Cyffredinol.

**Cyfrifol am:** Gwneud pob gorchwyl a nodir isod, ynghyd ag unrhyw dasg a dyletswydd arall y gall eich rheolwr llinell ei mynnu gennych.

| Beth y byddaf yn ei wneud | Sut olwg sydd ar waith gwych | Sut y byddaf yn ei ddysgu? |
|---|---|---|
| Gwasanaethu Cwsmeriaid | Gwasanaeth penigamp i gwsmeriaid | Llawlyfr<br>Cyfarfodydd T îm |
| Cyfathrebu | Ymddygiad cyfeillgar a chwrtais tuag at gwsmeriaid ac aelodau o'r tîm yn gyson | Llawlyfr |
| Agor / Rhedeg / Cau | Bod y ganolfan yn daclus ac yn cael ei chynnal a'i chadw, gan sicrhau amgylchedd croesawus | Rhestri Agor a Chau<br>Llawlyfr |
| Hyfforddi | Bodloni'r gofynion sylfaenol a chwblhau hyfforddiant pellach yn ôl yr angen | Llawlyfr<br>Llyfr Gwaith |

Mae'r llawlyfr yn eitem wir bwysig sy'n dweud wrth yr aelod o'r tîm am bob gwybodaeth y mae angen iddo/iddi ei meistroli. Mae'r llawlyfr yn dweud wrtho/wrthi sut i wneud ei waith/gwaith yn dda a beth a ddisgwylir ganddo/ganddi.

Pe bai disgybl newydd yn dechrau yn eich dosbarth, sut y byddai'n gwybod beth i'w wneud yn ystod y dydd a sut y byddai'n dysgu rheolau'r ysgol, neu'n gwybod beth i'w wisgo?

Allech chi ddylunio llawlyfr ysgol i helpu disgybl newydd? Pa wybodaeth y gallech ei chynnwys ynddo?

© Bentley Independent Education Advisors 2008

## Cyflwyniad

Mae bowlio yn ddifyrrwch hamdden llawn hwyl y mae llaweroedd ohonom wedi cymryd rhan ynddo o bryd i'w gilydd, ond faint ohonom sydd wedi sylweddoli bod i onglau ran bwysig yn y gêm?



## Trafodaeth

Siaradwch â'ch disgyblion am fowlio. Oes unrhyw un ohonynt wedi bod yn bowlio erioed? Mae'n bosib iawn bod rhai na fuont mewn canolfan fowlio wedi chwarae o'r blaen… sut? Ar eu Wii! (os oes modd trefnu benthyg consol Wii, gallech roi cynnig ar fowlio yn y dosbarth! Delfrydol am dipyn o ymarfer cyn ymweld â Hollywood Bowl!)

Eglurwch mai nod bowlio yw dymchwel cymaint o binnau ag sy'n bosib. I wneud hyn bydd y bowliwr yn amrywio ongl taith y bêl fel ei bod yn bwrw'r pinnau sydd eisiau ac yn eu dymchwel.

## Gweithgarwch 1 – Bowlio ar Bapur

*(Ar gyfer hyn, bydd arnoch chi angen deisiau a chopïau cerdyn o Deall Onglau – Dalen Waith y Disgybl 5, sisyrnau, penseli a ffyn mesur)*



Gofynnwch i'r disgyblion dorri'u pêl fowlio allan, gan ofalu peidio â niweidio'r onglydd na'r ale fowlio (efallai mai'r peth hawsaf fyddai i'r disgyblion dorri cornel eu dalen waith i ffwrdd cyn torri'r bêl allan).

Yn y cyfamser, copïwch y tabl isod i'r bwrdd.

| Rhif wedi'i Rowlio ar y Deis | Ongl |
|---|---|
| 1 | 0° |
| 2 | -5° |
| 3 | +5° |
| 4 | -10° |
| 5 | +10° |
| 6 | -20° |

Wedyn, bydd y disgyblion yn rowlio'r deisiau ar amcan i gael rhif rhwng 1 – 6. Yna, mae angen iddynt wirio'r ongl gyfatebol ar y tabl er mwyn gollwng y bêl. Nesaf, bydd y disgyblion yn pennu'r ongl oddi ar y llinell ganol (e.e. 90° yw ongl y llinell ganol, felly os gollyngant yn ôl – 10° mae angen iddynt weithio allan fod 90° – 10° = 80°). Yna, mae angen iddynt gael hyd i 80° ar yr onglydd ar y ddalen waith, a thynnu llinell syth, gan ddefnyddio ffon fesur, yn ôl 80° tuag at y pinnau. Nawr mae angen iddynt gysoni'r llinell ddotiau ar y bêl â'r llinell a dynnwyd ganddynt a llithro'r bêl tuag at y pinnau. Pa binnau y bydd yn eu bwrw? Ceir dau gynnig ar fowlio pêl mewn ffrâm: faint y byddant yn eu dymchwel mewn un ffrâm? Yn amlwg, ni fydd y pinnau ar bapur yn rowlio eu hunain nac yn dymchwel pinnau eraill.



© Bentley Independent Education Advisors 2008

Pam na rowch rifau i'r pinnau? Fel gweithgarwch estyn syml, gallai'r disgyblion ychwanegu'r rhifau ar y pinnau a ddymchwelir ganddynt at ei gilydd, a phennu'u sgôr.

## Trafodaeth

Trafodwch gyda'r disgyblion pam eu bod yn debycach o ddymchwel mwy o binnau mewn bywyd go iawn ac felly bod ganddynt fwy o obaith o gael ergyd berffaith (pan ddymchwelir yr holl binnau ag un bêl) neu ergyd sbâr (pan ddymchwelir y pinnau i gyd â dwy bêl). Mae hyn yn dibynnu ar ba mor galed a chyflym y byddwch yn bowlio'r bêl a ph'un a fydd y pinnau hwythau'n rowlio wrth gwympo i fwrw rhai eraill drosodd.


**Dolenni Cyswllt Cwricwlwm Cenedlaethol Cymru – Cyfnod Allweddol 2**

***Mathemateg** Ystod:* Mesurau ac Arian 1. Siâp, Safle a Symud 2.

**Bowlio ar Bapur**

1) Torrwch eich pêl fowlio allan o waelod y ddalen hon a chysonwch y llinell ddotiau arni â'r llinell ganol.


2) Nawr llithrwch eich pêl fowlio ar hyd y llinell ganol tuag at y pinnau.




3) Sawl pin a gâi eu dymchwel ganddi?

4) Nawr rhowch gynnig ar y gweithgarwch a osododd eich athro ichi.





© Bentley Independent Education Advisors 2008

## Cyflwyniad

Gall Dadansoddi Data fod yn offeryn defnyddiol i lawer busnes, gan roi iddynt wybodaeth werthfawr am eu cwsmeriaid a'u galluogi i deilwra cynhyrchion a gwasanaethau yn y ffordd orau i ateb y galw.



## Trafodaeth

Cyflwynwch gysyniad dadansoddi data a'i bosibiliadau defnyddio, drwy siarad â'ch disgyblion am y manylion y gall busnesau eu lloffa wrth gasglu gwybodaeth am eu cwsmeriaid: er enghraifft, beth y bydd pobl yn ei brynu, beth yw eu hoedran, faint o'r gloch y maent wrth eu boddau'n ymweld ac ati. Mae hyn yn caniatáu i fusnesau weld a ydynt yn denu'r mathau o gwsmer y dymunant eu croesawu a hefyd yn ei gwneud yn bosib iddynt bennu a oes angen iddynt hysbysebu i ddenu cwsmeriaid gwahanol.

## Gweithgarwch 1 – Dadansoddi Data



Ar y ddalen waith fe welwch enghraifft o wybodaeth ddychmygol am gwsmeriaid y gallai un o safleoedd Hollywood Bowl fod wedi ei darparu. Bydd angen i'r disgyblion dynnu'r wybodaeth ganlynol o'r manylion ar y Ddalen Waith Dadansoddi Data. Hwyrach y bydd o gymorth pe baech yn rhoi'r cwestiynau canlynol ar y bwrdd. Efallai y bydd angen cyfrifiannell ar y disgyblion ar gyfer rhai o'r cwestiynau hyn.

C1) A oedd mwy o wrywod yn y bore neu'r prynhawn/erbyn nos? *A) Roedd mwy o wrywod yn y bore.*
C2) A oedd mwy o blant yn y bore neu'r prynhawn/erbyn nos? *A) Roedd mwy o blant yn y bore.*
C3) Beth oedd cyfartaledd oedran y cwsmeriaid y bore Mercher hwnnw? *A) Cyfartaledd oedran y cwsmeriaid yn y bore oedd 15.*
C4) Beth oedd cyfartaledd oedran y cwsmeriaid y prynhawn/noswaith Fercher honno? *A) Cyfartaledd oedran y cwsmeriaid yn y prynhawn/erbyn nos oedd 26.*
C5) Faint a wariodd pob person ar fwyd yn y bore ar gyfartaledd? *A) Gwariodd pob person £1.26 ar fwyd yn y bore ar gyfartaledd (os cynhwysir y wibdaith ysgol).*
C6) Beth oedd yr amrediad prisiau a wariwyd yn nodweddiadol ar ddiodydd yn y prynhawn/erbyn nos? *A) Yr amrediad prisiau a wariwyd ar ddiodydd yn y prynhawn/erbyn nos oedd £2.00 - £12.00, sef amrediad o £10.00.*
C7) Ar gyfartaledd, faint y pen a gafodd ei wario ar fwyd yn y bore? *A) Ar gyfartaledd £6.00 y pen a wariwyd yn y bore.*
C8) Ar gyfartaledd, faint y pen a gafodd ei wario yn y prynhawn/erbyn nos? *A) Ar gyfartaledd £18.13 y pen a wariwyd yn y prynhawn/erbyn nos.*
C9) A wariodd pobl fwy yn y bore neu yn y prynhawn/erbyn nos? *A) Gwariodd pobl fwy yn y prynhawn/erbyn nos.*



© Bentley Independent Education Advisors 2008

Hwyrach y carech chi egluro hefyd, er mwyn i ddata fel y rhain fod yn fwy defnyddiol, y byddai angen edrych arnynt mewn mesurau helaethach. Er enghraifft, pe baech am wybod mwy am arferion gwario pobl ar fore Mercher, byddai'n llawer mwy buddiol edrych ar nifer fawr o foreau Mercher, gan y rhôi hynny olwg wiriach gyffredinol.

## Gweithgareddau Estyn

1) Ar ddalen ar wahân, tynnwch graff neu siart yn dangos faint o arian y bydd pob ymwelydd yn ei wario ar fwyd.

2) Nawr tynnwch un yn dangos oedran yr ymwelwyr yn y prynhawn/erbyn nos.


Peidiwch ag anghofio rhoi teitl i'ch siartiau/graffiau a labelu'r echelin.

**Dolenni Cyswllt Cwricwlwm Cenedlaethol Cymru – Cyfnod Allweddol 2**

***Mathemateg*** *Sgiliau:* 2 2 Cyfathrebu yn Fathemategol. 3 Rhesymu yn Fathemategol. *Ystod:* Trin Data 1.

hollywood bowl
www.hollywoodbowl.co.uk

**Dydd Mercher**




| AM / PM | Rhyw | Oedran | Nifer y Gemau | Gwario ar Fwyd | Gwario yn y Parth Gemau | Gwario ar Ddiodydd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| AM | B | 31 | 3 | £8.00 | £4.00 | £3.00 |
| AM | B | 28 | 3 | £6.00 | £2.00 | £2.00 |
| AM | G | 6 | 3 | £5.00 | £1.00 | £2.00 |
| AM | B | 4 | 3 | £5.00 | £1.00 | £2.00 |
| AM | G | 7 | 1 | | | £1.50 |
| AM | G | 7 | 1 | | | £1.50 |
| AM | G | 7 | 1 | | | £1.50 |
| AM | B | 6 | 1 | | | £1.50 |
| AM | B | 7 | 1 | | | £1.50 |
| AM | B | 7 | 1 | | | £1.50 |
| AM | B | 7 | 1 | | | £1.50 |
| AM | B | 6 | 1 | | | £1.50 |
| AM | B | 6 | 1 | | | £1.50 |
| AM | G | 7 | 1 | | | £1.50 |
| AM | G | 7 | 1 | | | £1.50 |
| AM | G | 6 | 1 | | | £1.50 |
| AM | B | 40 | 1 | | | £1.50 |
| AM | G | 54 | 1 | | | £1.50 |
| AM | B | 42 | 1 | | | £1.50 |
| PM | G | 16 | 5 | £10.00 | £5.00 | £8.00 |
| PM | G | 17 | 5 | £11.00 | £7.00 | £5.00 |
| PM | G | 16 | 5 | £8.00 | £5.00 | £7.00 |
| PM | B | 21 | 5 | £12.00 | £2.00 | £12.00 |
| PM | B | 20 | 5 | £7.00 | £1.00 | £10.00 |
| PM | B | 21 | 5 | £10.00 | £1.00 | £10.00 |
| PM | G | 49 | 2 | £5.00 | | £2.00 |
| PM | B | 48 | 2 | £5.00 | | £2.00 |

© Bentley Independent Education Advisors 2008

(shaded box) Gwibdaith Ysgol

## Cyflwyniad

Bwriedir i ddau dudalen ola'r pecyn hwn gael eu defnyddio ar ymweliad â'ch Hollywood Bowl lleol.

Cael hwyl wrth ddysgu! Beth allai roi mwy o hwyl na gêm fowlio? I gael hyd i'ch Hollywood Bowl lleol er mwyn trefnu gwibdaith ysgol, trowch i www.hollywoodbowl.co.uk . Wedyn, cysylltwch â thîm eich Hollywood Bowl lleol a fydd yn falch o roi ichi fanylion pellach a'ch helpu i drefnu ymweliad rhagarweiniol yn rhad ac am ddim, a chynnig cymorth a chyngor wrth ichi gwblhau'ch asesiadau risg.




## Rhifedd

Mae rhifau'n bwysig iawn i Hollywood Bowl. Defnyddiwn rifau mewn llawer gwahanol ran o'r ganolfan, a hynny am resymau gwahanol.

### Gweithgarwch 1 – Sylwi ar Rifau

*(Ar gyfer hyn bydd arnoch chi angen pinnau ysgrifennu, papur a chlipfyrddau)*

Yn ystod eich ymweliad â'ch Hollywood Bowl lleol, gofynnwch i'r disgyblion edrych o gwmpas y ganolfan (o dan oruchwyliaeth oedolyn) a chofnodi ymhle y gwelant rifau a pha ddiben sydd iddynt. Er enghraifft: rhifau ar esgidiau – meintiau esgidiau, rhifau ar fwydlenni – prisiau, rhifau ar sgrin cyfrifiadur uwchben yr ale – sgorau ac ati.



### Gweithgarwch 2 – Cwis Rhifedd

*(Ar gyfer hyn bydd arnoch chi angen pinnau ysgrifennu, copïau o Ddalen Waith 7 – Cwis Rhifedd, a chlipfyrddau)*

Gofynnwch i'ch disgyblion ateb cwestiynau'r ddalen waith yn ofalus; bydd angen iddynt edrych o gwmpas yn Hollywood Bowl. Atgoffwch nhw i ddangos sut y daethant i'r ateb a chofnodi'r unedau gyda'u hatebion. Gellir gweld yr atebion i'r cwestiynau sydd ar y ddalen waith a/neu'r ffigurau sydd angen i'ch helpu i ddod o hyd i'r ateb drwy edrych o gwmpas yn ofalus yn eich Hollywood Bowl lleol. Peidiwch ag anghofio y gall rhai o'r atebion i'r cwestiynau fod wedi newid ers eich ymweliad diwethaf.



© Bentley Independent Education Advisors 2008

**Dolenni Cyswllt Cwricwlwm Cenedlaethol Cymru – Cyfnod Allweddol 2**

***Mathemateg*** *Sgiliau:* 11 Datrys Problemau Mathemategol 2 Cyfathrebu yn Fathemategol. *Ystod:* Rhif 2. Mesurau ac Arian 2.

## Cwis Rhifedd



Ewch am dro o gwmpas eich Hollywood Bowl lleol. Os edrychwch yn ofalus, fe welwch yr atebion i'r cwestiynau isod a/neu'r ffigurau sydd angen arnoch i'ch helpu i gael hyd i'r atebion.

1) Sawl pin y byddai angen ichi eu dymchwel i gael ergyd berffaith?

A) ----------------------------------------------------------------------------------

2) Faint y byddai angen ichi ei dalu am gêm am 2pm ddydd Sadwrn?

A) ----------------------------------------------------------------------------------

3) Faint a gostiai ichi gael dwy gêm ar y Bwrdd Hoci Awyr?

A) ----------------------------------------------------------------------------------

4) Beth fyddai'ch bil pe baech yn prynu cwpanaid o de, siocled poeth a dwy ddiod feddal?

A) ----------------------------------------------------------------------------------

5) Yn sgil cwestiwn 4, faint o newid a gaech chi pe baech yn talu'r bil â phapur £10.00?

A) ----------------------------------------------------------------------------------

6) Sawl ale sydd?

A) ----------------------------------------------------------------------------------

7) Ar ddiwedd pob ale, mae yna beiriant sy'n casglu ac yn ailosod y pinnau ar ôl pob ffrâm. Mae pob peiriant yn dal 20 pin. Sawl pin sydd yn y peiriannau i gyd?

A) ----------------------------------------------------------------------------------

8) Faint a gostiai ichi gael eich parti pen-blwydd nesaf yn Hollywood Bowl pe baech yn gwahodd 10 o ffrindiau?

A) ----------------------------------------------------------------------------------

9) Pe baech yn rhoi cynnig ar bopeth yn y parth gemau, faint o arian y byddech yn ei wario?

A) ----------------------------------------------------------------------------------

10) Pe deuai Holly a Woody i fowlio gyda'u mam ar ddydd Iau ar ôl yr ysgol, faint y byddai dwy gêm yn costio?


A) ----------------------------------------------------------------------------------

© Bentley Independent Education Advisors 2008

hollywood bowl
www.hollywoodbowl.co.uk

## Cyflwyniad

Mae'r gwaith hwn yn adeiladu ar sail y gwaith a wnaed yn barod gan y disgyblion wrth gwblhau Dalen Waith 4 – Cyflogaeth.



## Swyddi a Chwrdd â Phobl

Mae llawer o swyddi gwahanol yn Hollywood Bowl. Mae rhai yn fwy amlwg ac yn golygu bod 'ym mlaen y tŷ', tra bod eraill 'tu ôl i'r llenni'. Eto i gyd, maen nhw oll yn rhan o'r tîm sy'n hanfodol i wneud Hollywood Bowl yn lle diogel, cyffrous, effeithlon, glân a llawn hwyl ar gyfer ymweliad.

## Gweithgarwch

Yn ystod eich ymweliad â'ch Hollywood Bowl lleol, gofynnwch i'ch disgyblion ddod i wybod faint o bobl sy'n gweithio yno a faint o swyddi gwahanol sydd. Bydd modd i'r staff ddweud wrth y disgyblion am bob rôl, beth a wnaiff y person hwnnw a pha gymwysterau, sgiliau a/neu brofiad sydd angen i wneud y gwaith.

Ar Ddalen Waith 8 – Swyddi a Chwrdd â Phobl, mae yna dabl y gall y disgyblion ei ddefnyddio i gofnodi'r wybodaeth y deuant o hyd iddi. Hwyrach na fyddwch am ymdrin yn fanwl â phob swydd yn Hollywood Bowl, felly pam na wnewch chi ddethol ychydig i fanylu arnynt?



## Gweithgareddau Estyn

1) Yn ôl yn y dosbarth, pam na ofynnwch i'r disgyblion edrych ar hysbysebion swyddi yn y papur newydd lleol i ystyried eu llunwedd. Wedyn, gallai'r disgyblion ddylunio'u hysbyseb eu hun ar gyfer swydd yn Hollywood Bowl.

2) Gallai'r disgyblion ymgynnig am y swyddi.

3) Gallech hyd yn oed drefnu cyfweliadau ffug!



© Bentley Independent Education Advisors 2008

**Dolenni Cyswllt Cwricwlwm Cenedlaethol Cymru – Cyfnod Allweddol 2**

***Fframwaith ABCh*** *Sgiliau:* Datblygu Cyfathrebu.
Amrediad: Paratoi ar Gyfer Dysgu Gydol Oes.

**Hawlfraint** - Mae canllawiau ar gyfer copïo ac arfer defnyddiau'r pecyn hwn gan athrawon, rhieni a disgyblion i'w cael yn http://www.bentley-iea.co.uk/permission-ho. Mae eisiau cydsyniad ysgrifenedig Bentley Independent Education Advisors ar gyfer unrhyw ddefnyddio arall sydd heb ei bennu yn y cytundeb llawn, fel sydd ar gael ar y wefan uchod.

## Swyddi a Chwrdd â Phobl

Siaradwch â'r staff y byddwch yn cwrdd â nhw yn Hollywood Bowl i gael dysgu pa waith a wnânt. Defnyddiwch yr wybodaeth a roddant ichi i lenwi'r tabl isod.




| Teitl y Rôl | Tasgau Allweddol | Cymwysterau | Sgiliau a Phrofiad sydd Angen |
|---|---|---|---|
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |

© Bentley Independent Education Advisors 2008